

PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL SIR Y
FFLINT

ADOLYGIAD DYNLADDIAD DOMESTIG
YN YMWNEUD Â DYNLADDIAD 'JULIE'
YM MIS HYDREF 2018

CRYNODEB GWEITHREDOL

CYNNWYS

<u>Eitem</u>		<u>Tudalen</u>
Cyflwyniad		3
Cyfranwyr at yr Adolygiad	3 - 4	
Pwrpas yr Adolygiad	4 - 5	
Cylch Gorchwyl	5	
Cwmpas yr Adolygiad		5
Yr Amgylchiadau yn Gryno		6
Ymgysylltiad ag Aelodau o'r Teulu		6
Materion Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad		7
Casgliadau		8
Argymhellion	9 - 10	

Cyflwyniad

1. Dyma grynodeb gweithredol o'r Adolygiad Dynladdiad Domestig (ADD) a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint mewn perthynas â llofruddiaeth 'Julie' gan ei phartner yn eu cartref, ym Mhenyffordd, Gogledd Cymru ym mis Hydref 2018.
2. Sylwadau: *Ffugenw yw Julie a ddewiswyd mewn ymgynghoriad â phlant Julie, a oedd i gyd yn blant dan oed ar adeg ei llofruddiaeth. Nid oedd gan Julie unrhyw deulu arall. Oherwydd eu hoedran, a'r trawma o golli eu mam mewn amgylchiadau mor dreisgar a thrasig, yn ddealladwy, dewisodd y plant wneud cyfraniad cyfyngedig yn unig i'r broses ADD. Roedd panel yr ADD yn deall y sefyllfa hon yn iawn ac yn estyn eu cydymdeimlad diffuant â'r plant yn eu colled drist.*
3. Ar fore dyddiad ym mis Hydref 2018 aeth Heddlu Gogledd Cymru i gyfeiriad cartref Julie, ar ôl derbyn galwad o linell ffôn y tŷ yno. Gwnaethpwyd yr alwad gan ddyn a oedd yn dweud ei fod yn bartner i Julie. Dywedodd yn yr alwad ei fod wedi achosi niwed marwol iddi.
4. Pan ddaeth swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru i'r eiddo a chwilio'r ystafelloedd, darganfuwyd yn gyflym fod Julie, y daethpwyd o hyd iddi i fyny'r grisiau yn yr ystafell ymolchi, wedi bod yn destun ymosodiad creulon a arweiniodd at ei marwolaeth. Cafodd ei phartner, a oedd wedi aros yn yr eiddo, ei arestio ar unwaith a'i gymryd i ddalfa'r heddlu. Yn dilyn sawl cyfweiliad aeth ymlaen i gael ei gyhuddo o lofruddiaeth Julie.
5. Ar ôl cael gwybod wedi hynny am y farwolaeth, a'r amgylchiadau cysylltiedig, gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio (SIO), cafodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint gyfarfod a chytunwyd y dylid cynnal ADD yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref.
6. Galwyd panel ynghyd a chynhaliwyd eu cyfarfod cyntaf ar 7 Mawrth 2019. Nodwyd Cadeirydd ac Awdur annibynnol, yn y drefn honno, a chytunwyd arnynt. Fodd bynnag, yn dilyn sylwadau i'r panel gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio, mewn perthynas â thrywyddion ymholi parhaus, cytunwyd na ddylai'r ADD gychwyn yn ffurfiol nes bod yr achos cyfiawnder troseddol parhaus wedi'i gwblhau.
7. Ym mis Mai 2019 cafwyd partner Julie yn euog o'i llofruddiaeth a chafodd ddedfryd o garchar am oes gydag isafswm tariff o 22 mlynedd.

Cyfranwyr at yr Adolygiad

8. Daeth yn amlwg yn ystod yr ADD fod Julie, ei phartner, a'i phlant wedi rhyngweithio ag ystod o asiantaethau cyhoeddus yn ystod y cyfnod y buont yn byw yn Sir y Fflint, a oedd yn dyddio'n ôl dros 20 mlynedd.

9. Roedd yr asiantaethau dan sylw, ac a gyfrannodd at yr ADD, fel a ganlyn:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Cyngor Sir y Fflint
- Adran Addysg, Cyngor Sir y Fflint

10. Fel prif gyfranwyr, roedd yr asiantaethau uchod yn cael eu cynrychioli ar y Panel ADD. Cynrychiolwyd yr asiantaethau a ganlyn ar y panel hefyd i sicrhau bod yr holl wybodaeth ac arbenigedd perthnasol ar gael i'r Cadeirydd a'r Awdur Annibynnol yn ystod y ADD:

- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Ambiwlans a Thân Gogledd Cymru
- Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol
- Diogelwch Cymunedol, Cyngor Sir y Fflint

Pwrpas yr Adolygiad

11. Ymarfer dysgu yw Adolygiad Dynladdiad Domestig ac nid ffordd o osod bai.

12. Pwrpas Adolygiad Dynladdiad Domestig yw:

- Canfod pa wersi y gellir eu dysgu o'r dynladdiad domestig o ran y ffordd mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yn gweithio'n unigol ac yn cydweithio i ddiogelu dioddefwyr.
- Nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny o fewn a rhwng asiantaethau, sut ac o fewn pa derfynau amser y byddent yn cael eu gweithredu, a beth sy'n debygol o newid o ganlyniad.
- Gweithredu'r gwersi hynny yn ymatebion y gwasanaethau, gan gynnwys newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau fel y bo'n briodol.
- Atal dynladdiad domestig a gwella ymateb gwasanaethau i bob dioddefwr trais domestig a'u plant drwy weithio o fewn, a rhwng asiantaethau.
- Cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais a cham-drin domestig .
- Amlygu arferion da.

13. Roedd yr adolygiad hefyd yn ceisio deall y canlynol, o ran a fyddai gwelliant wedi gallu arwain at ganlyniad gwahanol i Julie.

- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau o ran diogelu oedolion a phlant.
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth o fewn asiantaethau.
- Safonau ymarfer proffesiynol a sefydliadol.
- Polisiâu a phrotocolau Cam-drin Domestig.
- A oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn yr achos hwn, gan yr asiantaethau priodol, yn cynrychioli gwaith aml-asiantaeth effeithiol ac effeithlon.

Cylch Gorchwyl

14. Darparwyd y Cylch Gorchwyl canlynol i'r Awdur Annibynnol gan y corff comisiynu;

- A oedd teulu, ffrindiau neu gydweithwyr yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad treisgar a ddangoswyd gan y cyflawnwr tuag at y dioddefwr, cyn y dynladdiad.
- A wynebodd y dioddefwr neu ei theulu, ei ffrindiau neu ei chydweithwyr unrhyw rwystrau wrth adrodd am gamdriniaeth yn Sir y Fflint neu du hwnt, gan gynnwys a oedd hi'n gwybod sut i adrodd am gam-drin domestig petai'n dymuno gwneud hynny.
- A oedd unrhyw gyfleoedd wedi'u methu gan weithwyr proffesiynol i wneud 'ymholiadau fel mater o drefn' o ran unrhyw gam-drin domestig tuag at y dioddefwr.
- A fethwyd cyfleoedd i asiantaethau ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig tuag at y dioddefwr.
- Nodi unrhyw ofynion hyfforddi neu sesiynau codi ymwybyddiaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig.
- Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymddangos yn berthnasol i'r dioddefwr a/neu'r cyflawnwr, gan gynnwys oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Cwmpas yr Adolygiad

15. Gan fod ymchwiliad dynladdiad yr heddlu wedi nodi bod gan y cyflawnwr hanes hir o berthnasol camdriniol gyda menywod, cytunodd y Panel ADD y dylai cwmpas yr ADD ymestyn yn ôl i 2002 i sicrhau bod yr holl berthnasol perthnasol yn cael eu nodi a'u croesawu.

16. Dewiswyd y flwyddyn honno gan fod yr heddlu wedi canfod yng nghamau cynnar yr ymchwiliad bod partner blaenorol wedi dioddef ymosodiad treisgar gan y troseddwr yn 2002, a bod Heddlu Gogledd Cymru wedi mynychu'r digwyddiad. O ganlyniad, daeth y digwyddiad dan sylw yn fan cychwyn ar gyfer yr ADD.

Yr Amgylchiadau yn Gryno

17. Roedd Julie yn 46 oed pan gafodd ei llofruddio, ym mis Hydref 2018, gan ei phartner 51 oed, yr oedd hi wedi bod mewn perthynas ag ef ers 2003. Roedd gan Julie blentyn un ar bymtheg oed o berthynas flaenorol ac roedd ganddi hi a'i phartner ddau o blant eraill, 11 a 10 oed, yn y drefn honno, ar adeg ei llofruddiaeth.

18. Roedd ei phartner yn ddyn treisgar ac ymosodol gydag arfer yfed sylweddol. Roedd ganddo hefyd hanes hir o gam-drin partneriaid benywaidd blaenorol, a rhoddodd nifer ohonynt dystiolaeth yn ei erbyn yn ei achos llys.

19. Roedd tad plentyn hynaf Julie wedi taro i mewn i'w blentyn yn ei ardegau yn ddiweddar mewn gweithred ceir lleol ac roedd y cyfarfod hwnnw wedi sbarduno cyfathrebu o'r newydd, megis negeseuon testun, rhyngddo ef a'i blentyn, yn ogystal â Julie, hefyd. Yna dechreuodd ymweld â'r ddau yn eu cartref neu, yn fwy arferol, mewn cartref modur a oedd wedi'i barcio y tu allan i flaen yr eiddo.

20. Credir mai'r cyfathrebu newydd hwn, a'r eiddigedd a ysgogwyd gan hynny, oedd y prif gymhellant dros yr ymosodiad angheuol dilynol ar Julie gan ei phartner.

21. Daeth yr ymosodiad hwnnw un bore ym mis Hydref 2018, a daeth i sylw Heddlu Gogledd Cymru o ganlyniad i alwad ffôn gan bartner Julie a ddywedodd yn ystod yr alwad mai ef oedd yn gyfrifol am ei marwolaeth.

22. Ar ôl i'r swyddogion heddlu cyntaf gyrraedd, daethant o hyd i bartner Julie yng ngardd yr eiddo dan ddylanwad alcohol ac mewn dillad a oedd wedi'u staenio'n drwm â gwaed. Wrth iddo gael ei gymryd i ddalfa'r heddlu dywedodd wrth y swyddog arestio y gellid dod o hyd i Julie i fyny'r grisiau, yn yr ystafell ymolchi.

23. Wrth chwilio'r eiddo gwelwyd bod ffrwgwd treisgar wedi digwydd a daethpwyd o hyd i Julie wedi hynny, fel y nodwyd, yn yr ystafell ymolchi. Mor ddifrifol oedd ei hanafiadau, roedd yn amlwg ar unwaith i swyddogion yr heddlu fod Julie wedi marw.

24. Yn ddiweddarach daethpwyd o hyd i forthwyl craffanc wedi'i orchuddio â gwaed yng ngardd gefn yr eiddo drws nesaf. Cafodd hwn ei nodi'n ddiweddarach fel yr arf a ddefnyddiwyd gan bartner Julie i achosi ei hanafiadau angheuol. Nododd archwiliad post-mortem fforensig dilynol mai achos y farwolaeth oedd, 'anaf pen â grym difrifol yn sgil nifer o ergydion â morthwyl.'

Ymgysylltiad ag Aelodau o'r Teulu

25. Cafodd Awdur yr ADD gyfarfod gyda dau blentyn ieuengaf Julie, yng nghwmni Swyddog Cyswllt Teuluol yr Heddlu. Fodd bynnag, ni wnaethant ddarparu unrhyw wybodaeth a oedd o werth sylweddol i'r ADD.
26. Yn yr un modd, cafwyd cyfarfod â phlentyn hynaf Julie hefyd, yng nghwmni'r Swyddog Cyswllt Teuluol a'i thad biolegol, ond ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth o unrhyw werth i'r adolygiad yn ystod y cyfarfod.

Materion Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad

27. Roedd Julie a'i phartner yn adnabyddus i nifer o asiantaethau cyhoeddus, yn enwedig yr Heddlu, Iechyd, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.
28. Roedd thema drwy gydol yr ADD, lle roedd asiantaethau'n aml yn cyflawni dim mwy na'u swyddogaeth gyfyngedig broffesiynol eu hunain wrth ddelio â Julie, ei phlant neu ei phartner. O ganlyniad i hyn, ni chafodd y safbwynt ehangach, o ran eu perthynas gamdriniol, ei gydnabod ac, yn ei dro, ni aethpwyd i'r afael â hynny.
29. Yn yr atgyfeiriadau a wnaed gan Heddlu Gogledd Cymru i'w hasiantaethau partner, fel arfer yn dilyn honiadau o gam-drin domestig, yn gyson roedd diffyg hanes troseddu perthnasol y cyflawnwr. Ni ddarparwyd cyd-destun perthnasol ac, felly, nid oedd modd gwneud penderfyniadau nac asesiadau cwbl wybodus.
30. Ni wnaeth Heddlu Gogledd Cymru erioed nodi'n llawn na gweithredu ar y risg yr oedd y troseddwr yn ei gynrychioli i fenywod. Mae hyn er gwaethaf eu gwybodaeth am ei gefndir o gam-drin a thrais tuag at fenywod yn ymestyn yn ôl i 2002.
31. Amlygwyd bod yr angen i weithwyr proffesiynol y Gwasanaethau Cymdeithasol gadw cofnodion effeithiol a gwell yn hanfodol, ynghyd â'r angen i gymhwyso chwilfrydedd proffesiynol priodol.
32. Cyflwynwyd Julie chwe gwaith i'r GIG, ar ffurf ei Meddyg Teulu, Uned Mân Anafiadau ac Adran Damweiniau ac Achosion Brys ei hysbyty lleol, rhwng 2005-17. Ar bob achlysur cafodd anafiadau a oedd yn arwyddocaol o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig.
33. Nid oes tystiolaeth bod y gweithwyr iechyd proffesiynol a oedd wedi ei thrin wedi rhoi ystyriaeth benodol i gam-drin domestig. Ymddengys na wnaethpwyd ymholiad â hi ynghylch gwir achos ei hanafiadau.
34. Mae'n bosibl y byddai archwiliad mwy rhagweithiol o'r rhesymau dros absenoldebau, triwantiaeth neu ymddygiadau penodol yn yr ysgol, gan y gweithwyr Addysg proffesiynol amrywiol dan sylw, wedi sicrhau gwell dealltwriaeth o amgylchedd eu cartref a sut y gallai fod yn cyfrannu at eu hymddygiad.

35. Mae angen gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a'r cyfleoedd posibl i'w nodi ar draws yr asiantaethau cyhoeddus a ddaeth i gysylltiad â Julie a'i theulu.

Casgliadau

36. Roedd y berthynas rhwng Julie a'i phartner yn un sarhaus, o ran ei gam-drin ohoni. Roedd yn aml yn ceisio mynnu rheolaeth gorfforol drosti, fel arfer ar ôl iddo gamddefnyddio alcohol.

37. Er na nodwyd unrhyw dystiolaeth yn yr adolygiad bod ei phartner wedi ceisio mynnu rheolaeth dros Julie mewn perthynas yn benodol ag adnewyddu ei chyfeillgarwch â thad ei phlentyn hynaf, mae'n amlwg bod cenfigen ei phartner yn ffactor ysgogol arwyddocaol o ran ei ymosodiad angheuol arni.

38. Ni chafodd y bygythiad parhaus yr oedd partner Julie yn ei gynrychioli i fenywod yn yr amgylchedd domestig erioed ei gydnabod na'i reoli'n effeithiol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cam-drin menywod, a defnyddio trais corfforol i'w rheoli, mewn ardal ddaearyddol fach, ac ambell waith yn yr un stryd.

39. Er na chafodd y bygythiad hwnnw ei gydnabod, nid oedd unrhyw ddilyniant parhaus o ddigwyddiadau, dim cadwyn o achosion, a aeth heb eu gwirio ac a arweiniodd wedyn at lofruddiaeth Julie.

40. Cadarnhaodd ymgynghoriad gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Ymgynghorydd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol arweiniol yng Ngogledd Cymru, y byddai gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gyfraith Clare a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, o fewn y gymuned a swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru, o fudd sylweddol yn y dyfodol.

41. Roedd safon wael arferion rhannu gwybodaeth yr asiantaethau cyhoeddus dan sylw yn eu hatal rhag cydweithio'n effeithiol i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon diogelu.

42. Methwyd â rhannu gwybodaeth oherwydd safon wael debyg yr arferion casglu gwybodaeth, pan oedd cyfleoedd allweddol yn codi, i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd domestig a ddiodefwyd.

43. Dangoswyd diffyg chwilfrydedd proffesiynol gan y gweithwyr iechyd proffesiynol a ymdriniodd â Julie o ran cysylltiad posibl ei hanafiadau amrywiol â'r cam-drin domestig yr oedd yn ei ddiodef.

44. Ni chymerwyd digon o gamau gan staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i ryngweithio'n bersonol â Julie a'i phlant a allai fod wedi rhoi cipolwg ar eu hamgylchedd domestig a hysbysu'r gweithwyr proffesiynol dan sylw yn well ynghylch unrhyw risgiau a oedd yn parhau.
45. Ni achubwyd ar gyfleoedd gan weithwyr addysg proffesiynol i gael gwell dealltwriaeth o amgylchedd domestig y plant wrth ddelio â nhw a/neu eu mam.

Argymhellion

1. Dylai Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fod yn fodlon bod polisïau a hyfforddiant presennol yr heddlu mewn perthynas â Cham-drin Domestig a Diogelu, gan gynnwys sut maent yn berthnasol i rannu gwybodaeth berthnasol ag asiantaethau eraill, yn cael eu deall yn llawn ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol gan swyddogion a staff.
2. Dylai Heddlu Gogledd Cymru gynnal rhaglen hyfforddi staff ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth, o fewn y sefydliad ac yn allanol, mewn perthynas â Chyfraith Clare. Y prif nod fyddai sicrhau bod staff HGC a'r gymuned yn deall manylion y ddeddfwriaeth.
3. Canfod data cydymffurfiaeth bob chwarter mewn perthynas â'r broses 'Ymchwiliad Rheolaidd' ar gyfer Cam-drin Domestig, ar draws y tair Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor.
4. Darparu hyfforddiant pwrpasol i'r tair Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), gan ganolbwyntio ar 'Ymchwiliad Rheolaidd' Cam-drin Domestig, rhestr wirio nodi risg SafeLives ac atgyfeirio i MARAC a gwasanaethau cymorth eraill.
5. Gweithredu'r weithdrefn Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Defnyddwyr Gwasanaeth Trais Rhywiol yn llawn ar draws BIPBC.
6. Dylai Prif Weithredwr BIPBC sicrhau bod atebolrwydd gweithredol a strategol ar gyfer Cam-drin Domestig yn cael ei nodi'n glir o fewn y Tîm Diogelu Corfforaethol.
7. Dylai Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod systemau sefydliadol yn bodoli i fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau sefydliadol perthnasol i sicrhau, pan fydd asiantaethau partner yn atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, fod cofnod clir, dyddiedig ac archwiliadwy yn cael ei wneud o'r cyfathrebu rhwng asiantaethau. Dylid cofnodi'r cyd-destun a'r rhesymeg dros unrhyw benderfyniadau, ynghyd â'r canlyniad.
8. Dylai'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod systemau sefydliadol yn bodoli i fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau sefydliadol perthnasol er mwyn sicrhau, pan na welir plentyn, yn dilyn atgyfeiriad, bod sail resymegol glir yn

cael ei chofnodi gan nodi'n llawn pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw, gan gynnwys cyd-destun, ystyriaethau a rhesymeg.

9. Dylai'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod systemau sefydliadol yn bodoli i fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau sefydliadol perthnasol i sicrhau, pan nad yw mater wedi'i gyfansoddi fel ymchwiliad Adran 47, bod cofnod clir a thrylwyr o ran pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw, gan gynnwys y cyd-destun, ystyriaethau a rhesymeg.
10. Dylai Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfleu'n glir i staff allweddol bod angen gwaith partneriaeth effeithiol, gan groesawu deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Hynny yw, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Diogelu Data 2018. Hefyd, yng nghyd-destun Cam-drin Domestig, y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, 2016-2021.
11. Dylai'r Prif Swyddog, Addysg ac Ieuencid, sicrhau;
 - Cydymffurfiaeth staff Grŵp 1 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
 - Gweithredu Grŵp 2 (Gofyn a Gweithredu) y Fframwaith hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol perthnasol.
 - Gweithredu Grŵp 3 (Dealltwriaeth Well o VAWDASV ar gyfer Cefnogwyr Sefydliadol) o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer y gweithwyr proffesiynol perthnasol hynny y tybir sy'n briodol.
12. Dylai Penaethiaid yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych fodloni eu hunain bod hyfforddiant o'r fath y manylir arno yn Argymhelliad 11 yn digwydd a bod ei ddarpariaeth yn cael ei chofnodi.
13. Dylai'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) achosi adolygiad o'r prosesau rhannu gwybodaeth sydd yn eu lle ar hyn o bryd yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych i sicrhau bod gwybodaeth yn ymwneud â diogelu yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng ysgolion a cholegau, yn enwedig o ran brodyr a chwirydd neu aelodau eraill o'r un grŵp teulu, yn effeithiol.
14. Dylai staff yr ysgol ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol priodol i sicrhau nad yw materion sy'n peri pryder yn mynd heb eu canfod a'u cofnodi. Mae angen i staff addysg fodloni eu hunain bod prosesau a systemau cyfredol yn drylwyr, yn gadarn ac yn rhoi sicrwydd nad yw materion sy'n peri pryder yn mynd heb eu canfod ar draws y grŵp staffio ysgol.